❖ Ymateb rhai o'r Tystion i'r Newyddion am Eni Rhyfeddol Iesu

Mair

Mae fy nghalon yn moli'r Arglwydd.
Mae fy enaid yn falch
oherwydd bod Duw wedi cofio
amdanaf,
ei forwyn ostyngedig!
Roedd hi'n rhyfedd
nad oedd gen i amheuon
wedi ymweliad yr angel.
Roedd Duw wedi fy newis i
i eni ei fab.
Joseff druan!
Yn flin i ddechrau
yna'n ddryslyd
yna'n rhannu fy syndod a'm hyder…
Nid wyf yn cofio llawer am y daith i
Fethlehem.
Diolch byth –
mae'r hyn rwy'n ei gofio'n boenus
gydag ysgytiad pob cam araf
ar y ffordd lychlyd.
Rwy'n cofio anobaith Joseff
wrth iddo fynd o ddrws i ddrws
a'r un ateb o hyd:
'Dim lle.
Dydych chi ddim yn gwybod
bod yna gyfrifiad?'
Croesawodd cynhesrwydd
y stabl ni.
Yn cynnig gorffwysiad o'r diwedd.
Yna, ganwyd Iesu
ac edrychais mewn rhyfeddod
ar fab Duw
yn bwydo ar fy mron…
Disgynnodd cysgod
ar draws y drws
a daeth y bugeiliaid
i wylio mewn syndod
ac adrodd eu hanes
am gân yr angylion.
Nid amheuais i nhw.
Dyma nhw'n gadael,
gan foli Duw
am yr hyn a welsant ac a glywsant.
A chofiais bopeth
a myfyrio'n ddwfn…